**LC644**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff) (Cymru) 2003**

Mae hwn yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff yr awdurdodau lleol i'r byrddau iechyd lleol.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwallau drafftio canlynol sydd wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog priodol ac y byddai'n briodol i'w cywiro drwy gyfrwng memorandwm cywiriadau.

**Rhagarweiniad**

Mae gofyn am ymgynghoriad o dan baragraff 22(3) o Atodlen 5B o Ddeddf 1977, lle mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "prescribed requirements about consultation". Yn ôl y diffiniad yn adran 128(1), mae'r term "prescribed" yn golygu wedi ei ragnodi gan reoliadau. Felly, oherwydd yr ymddengys nad oes rheoliadau wedi'u gwneud mewn perthynas â'r mater hwn, ni all y rhagarweiniad fod yn gywir wrth ddatgan y cydymffurfiwyd â'r gofynion rhagnodol ym mharagraff 22(3). Sylweddolir y cynhaliwyd ymgynghoriad llawn, anstatudol.

**Erthyglau 3 a 4**

Nid yw fformat y darpariaethau hyn yn adlewyrchu'n llawn delerau'r pwer galluogi ym mharagraff 22 o Atodlen 5B, fel y'i darllennir ar y cyd â pharagraff 23. Dim ond ailadrodd yr hyn a geir ym mharagraff 23(1) y mae Rheoliadau 3 a 4 yn honni ei wneud. Yr hyn y dylai'r erthygl ei wneud yw "trosglwyddo" yn benodol ddisgrifiadau'r cyflogeion dan sylw i'r

byrddau iechyd lleol. Wedyn, bydd y ddarpariaeth i beri i'r contract cyflogaeth ddod i rym fel petai wedi'i wneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai a'r bwrdd iechyd lleol yn gweithredu'n awtomatig, trwy rinwedd y ddarpariaeth ym mharagraff 23 o Atodlen 5A.

**Erthygl 5(1)(a)**

Gan bod erthyglau 3 a 4 yn dod i rym o'r hyn a elwir yn y testun Saesneg yn "the transfer date", nid yw'r geiriau "at any time between the transfer date and 31st March 2004" ym mharagraff (a) yn berthnasol o gwbl.

**Sylwadau**

Tynnwyd sylw y rheini sy'n gyfrifol am brosesu'r gorchymyn at ddau bwynt mân sy'n codi mewn perthynas â'r nodyn esboniadol, ac at un pwynt teipograffyddol yn y rhagarweiniad.

Mick Bates AC

**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

4 Mawrth 2003